# GOLYGYDD LLYFRAU CYMRAEG

Mae'r Lolfa yn chwilio am Olygydd Llyfrau i olygu yn greadigol rhai o'n llyfrau Cymraeg i oedolion. Mae hon yn swydd lawn amser, yn gyflogedig i'r Lolfa ond rydym yn barod i ystyried ymgeiswyr sydd am weithio yn rhan amser. Mae'r Lolfa yn hapus i ystyried ymgeiswyr sydd am weithio yn Y Lolfa neu yn hybrid.

**Cefndir**

Sefydlwyd Y Lolfa yn Nhalybont, Ceredigion yn niwedd y chwedegau. Yn fuan daeth y wasg i fri fel un fentrus a bywiog yn cynhyrchu deunydd poblogaidd a gwleidyddol gan ddefnyddio dulliau argraffu newydd y cyfnod. Dros y blynyddoedd ehangodd diddordebau'r wasg i gynnwys nofelau cyfoes Cymraeg, llyfrau i ddysgwyr, llyfrau gwreiddiol i blant gan arlunwyr ac awduron o Gymru, a rhychwant eang o lyfrau ffeithiol yn Gymraeg a Saesneg. Tyfodd ein rhestr Saesneg i gynnwys bywgraffiadau, llyfrau chwaraeon, llyfrau cyffredinol i ymwelwyr, llyfrau ysgafn a rhai llyfrau llenyddol a hanesyddol.

Ar yr ochr argraffu, dilynwyd, o'r dechrau, y polisi o fod yn hunangynhaliol hyd y bo modd. Erbyn hyn, mae gan y cwmni ddwy wasg argraffu yn y maint B2 – yn cynnwys un pump-lliw ac un berffeithio – a gwasg ddigidol a pheiriannau rhwymo. Mae ganddi rwydwaith o Macs a PCs ar gyfer dylunio a pharatoi llyfrau i'w hargraffu.

Trodd Y Lolfa yn gwmni cyfyngedig yn 1979. Erbyn hyn, mae'n cyflogi 22 o bobl gyda throsiant blynyddol o dros £1.5 miliwn. Mae gwefan y cwmni (www.ylolfa.com) yn cynnwys rhestr gyflawn o gyhoeddiadau'r Lolfa a gwybodaeth am y cwmni.

Mae prif swyddfeydd y cwmni, yr argraffdy a'r warws ar safle Hen Swyddfa'r Heddlu, Talybont. Mae gan y cwmni swyddfa olygyddol yng Nghaernarfon sy'n cael ei ddefnyddio dau ddiwrnod yr wythnos.

**Swydd: GOLYGYDD LLYFRAU CYMRAEG**

Y prif orchwyl fydd llywio nifer penodol o lyfrau Cymraeg Y Lolfa i oedolion drwy'r wasg gan olygu'r llyfrau yn greadigol ac ymgymryd â phob gwaith cysylltiol. Yn ogystal â chydweithio â golygyddion eraill Y Lolfa bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cydweithio gydag adran olygyddol y Cyngor Llyfrau ar rai teitlau.

Bydd y Golygydd yn un o'n tîm golygyddol o chwech. Bydd yn atebol i Lefi Gruffudd, Pennaeth Cyhoeddi Y Lolfa. Mae hon yn swydd lawn amser ond rydym yn hapus i ystyried ymgeiswyr sydd am weithio yn rhan amser. Rydym hefyd yn barod i ystyried penodi rhywun o dan hyfforddiant, sydd gyda'r sgiliau perthnasol ond heb brofiad penodol o weithio yn y maes llyfrau.

**Dyletswyddau**

Mae’r cyfrifoldebau yn cynnwys gwneud y gwaith canlynol ar nifer penodol o deitlau Cymraeg Y Lolfa i oedolion.

- Rheoli a llywio llyfrau trwy’r wasg.
- Sicrhau bod y testun yn gyflawn, yn glir, yn gywir ac yn gyson; ei fod yn cyfateb i ofynion y cytundeb, a’i fod yn cydymffurfio ag arddull y tŷ.
- Cydweithio gyda’r awdur er mwyn mireinio’r arddull, cywiro camgymeriadau ffeithiol a chyfeiriadau gwallus/absennol, cwtogi lle bo angen a gwella’r strwythur.
- Trefnu’r dalennau rhagarweiniol (teitl, awdur, nodyn hawlfraint, ISBN, tudalen gynnwys, cydnabyddiaethau, rhagair, etc.) a’r dalennau terfynol (atodiadau, llyfryddiaeth, mynegai, etc.)
- Cyd-gysylltu gyda’r awdur, adrannau’r Lolfa a’r Cyngor Llyfrau.
- Trefnu testun y clawr (yn cynnwys y broliant).
- Paratoi datganiadau i’r wasg a gwybodaeth hyrwyddo i’r adran farchnata.
- Chwilio am luniau a sicrhau caniatâd.
- Darllen a deall cywiriadau golygyddion copi a’u gosod i mewn ar y sgrin gan ddefnyddio *Word* a rhaglenni tudalennu fel *InDesign*. (Rhoddir hyfforddiant).
- Trefnu golygu testunol a phrawfddarllen allanol pan fo’r angen yn codi.
- Comisiynu gwaith celf a chynllun y clawr; comisiynu neu ddewis dylunwaith ar gyfer corff y llyfr.
- Cynnig syniadau ar gyfer cyfrolau a thrafod syniadau mewn cyfarfodydd golygyddol.
- Derbyn ymholiadau, syniadau a chynhigion cyhoeddi, mynegi barn arnynt a sicrhau eu bod yn cael eu prosesu.
- Paratoi deunydd gwybodaeth a marchnata am lyfrau ar wefannau mewnol ac allanol.
- Gwneud gwaith gweinyddol amrywiol cysylltiedig.
- Cyflawni tasgau eraill rhesymol yn ôl y galw.

**Cymwysterau**

Dylai’r ymgeisydd fod â diddordeb mewn llyfrau ac â gwybodaeth fanwl o’r byd llyfrau Cymraeg a materion y dydd. Bydd angen gafael sicr ar orgraff a gramadeg Cymraeg a’r gallu i gyfathrebu yn rhwydd ac yn gywir yn Gymraeg.

Byddai profiad blaenorol o waith o natur golygyddol a chymwysterau academaidd perthnasol e.e. mewn Cymraeg o fantais.

Rhaid wrth frwdfrydedd dros genhadaeth y wasg o gyhoeddi llyfrau mentrus, heriol, gwreiddiol, amrywiol a phoblogaidd.

Bydd angen y gallu i gyfathrebu’n glir, trefnusrwydd a phrofiad o ddefnyddio rhaglenni *Office, Adobe* a *Teams* a’r gallu i weithio o dan bwysau. Rhoddir hyfforddiant yn ôl yr angen.

Rydym yn barod i ystyried ymgeiswyr sydd heb brofiad o olygu ac am dderbyn hyfforddiant wrth weithio.

**Cyflog ac Amodau**
Ebostiwch garmon@ylolfa.com am y manylion.

**Cyfle Cyfartal**
Rydym yn ymdrechu i ddatblygu gweithle o bob rhan o'r gymuned waeth beth fo'u rhyw, hunaniaeth rhyw, ethnigrwydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth draws, statws perthynas, crefydd neu gred, cyfrifoldebau gofalu, neu oedran. Mae’r Lolfa wedi ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac i greu amgylchedd gwaith cynhwysol. Credwn y gellir cyflawni hyn trwy ddenu, datblygu a chadw amrywiaeth eang o staff o nifer o wahanol gefndiroedd.

Nodir yr amodau mewn cytundeb gwaith sydd i’w lofnodi wrth ddechrau ac fe ddarperir Llawlyfr Staff. Rydym yn falch o’r awyrgylch gweithio braf sydd yma.

**Cefnogaeth Cyngor Llyfrau Cymru**
Ar hyn o bryd noddir rhan o gyflog y swydd hon gan Gyngor Llyfrau Cymru (a ddaw o Lywodraeth Cymru). Rydym yn cadw’r hawl i addasu amodau’r cytundeb neu ddirwyn y cytundeb i ben petai’r nawdd yn cael ei leihau neu ei ddiddymu.

**Cyfnod Prawf**
Mae cyfnod prawf o chwe mis; gwneir y swydd yn barhaol wedyn os bydd y perfformiad yn foddhaol.

**Ymgeisio**
I ymgeisio am y swydd hon, dylech anfon

1. CV llawn yn nodi:
Unrhyw brofiad a chymwysterau; eich diddordebau hamdden.
3. Enwau, e-byst a rhifau ffôn dau ganolwr.
3. Llythyr neu e-bost (dim mwy na 1,000 o eiriau) yn esbonio pam eich bod yn ymgeisio am y swydd.

Rhaid i geisiadau ddod i law erbyn hanner dydd, dydd Llun yr **18fed o Fawrth**. Cynhelir cyfweliadau’n fuan wedyn. Os hoffech gael mwy o wybodaeth am y swydd neu am Y Lolfa, mae croeso i chi gysylltu â ni.  Mae’r manylion cysywllt isod.

Anfonwch eich cais at:

Garmon Gruffudd, Rheolwr Gyfarwyddwr
Y Lolfa Cyf., Talybont, Ceredigion SY24 5AP
*ffôn:* (01970) 831 902
*ffacs:* 832 782
*e-bost:* garmon@ylolfa.com
*gwefan:* www.ylolfa.com